



CYLCH GORCHWYL

Mae Comisiwn Senedd Cymru wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'w gynorthwyo â'i gyfrifoldebau dros faterion risg, rheolaeth a llywodraethu. Ei rôl yw adolygu pa mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw'r sicrwydd a geir ac a yw'n bodloni anghenion Comisiwn y Senedd a'r Swyddog Cyfrifyddu.

AELODAETH

1. Aelodau [Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd](#) ("y Pwyllgor") yw:
 - [Ken Skates](#), AS, Comisiynydd;
 - Tri gynghorydd annibynnol, sef [Robert Evans](#) (Cadeirydd), [Dr Mark Egan](#), ac [Menai Owen-Jones](#).

CYFLWYNO ADRODDIADAU

2. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r [Comisiwn](#) drwy'r Comisiynydd sy'n aelod o'r Pwyllgor ar ôl pob cyfarfod. Caiff cofnodion pob cyfarfod eu cynnwys fel papur i'w nodi mewn cyfarfod y Comisiwn yn y dyfodol a chânt eu cyhoeddi ar wefan y Senedd.
3. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn bresennol yng nghyfarfod y Comisiwn fel arfer ym mis Gorffennaf ac yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu, a fydd yn crynhoi casgliadau'r Pwyllgor ar y gwaith a wnaeth yn ystod y flwyddyn.

CYFRIFOLDEBAU

4. Bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch:
 - y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu;
 - y Datganiad Llywodraethu;

- polisiau cyfrifyddu, cyfrifon ac adroddiad blynyddol y Comisiwn, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, nifer y camgymeriadau a nodir, a llythyr yn cynnwys sylwadau'r rheolwyr i'r Archwilydd Cyffredinol;
 - y gweithgareddau arfaethedig a chanlyniadau archwiliadau mewnol ac allanol;
 - digonolrwydd ymateb y rheolwyr i'r materion a nodir drwy weithgareddau archwilio, gan gynnwys y llythyr rheoli archwiliad allanol gan Archwilio Cymru;
 - sicrwydd o ran rheoli risg a llywodraethu corfforaethol i'r Comisiwn;
 - cynigion i dendro o ran gwasanaethau Archwilio Mewnol neu i brynu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio; a
 - pholisiau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a'r trefniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.
5. Bydd y Pwyllgor yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun o bryd i'w gilydd a bydd yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Comisiwn yn ei Adroddiad Blynyddol.

HAWLIAU

6. Yn amodol ar gyllidebau y cytunir arnynt gan y Comisiwn, gall y Pwyllgor, gyda chymeradwyaeth y Swyddog Cyfrifyddu:
- benodi aelodau ychwanegol am gyfnod nad yw'n hwy na blwyddyn i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol; a
 - chaffael cyngor arbenigol yn ôl y gofyn, y telir amdano gan y sefydliad.

MYNEDIAD

7. Bydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd o Archwilio Cymru fynediad agored a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor.

CYFARFODYDD

8. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith bob blwyddyn. Gall y Cadeirydd gynnull cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.
9. Rhaid i o leiaf ddau aelod o'r Pwyllgor fod yn bresennol i sicrhau cworwm.
10. Bydd y Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Swyddog Cyllid, y Cyfarwyddwr Adnoddau, y Cyfarwyddwr Adnoddau, y Rheolwr Risg a Llywodraethu, y Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd o Archwilio Cymru yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor fel arfer.
11. Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw swyddog arall fod yn bresennol i'w gynorthwyo â'i drafodaethau ar unrhyw fater penodol.
12. Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw rai, neu i bob un, o'r bobl hynny nad ydynt yn aelodau ond sy'n arfer mynd i'r cyfarfodydd adael yr ystafell er mwyn hwyluso cynnal trafodaeth agored a didwyll ar faterion penodol.
13. Gall y Comisiwn neu'r Swyddog Cyfrifyddu ofyn i'r Pwyllgor gynnull cyfarfodydd ychwanegol i drafod materion penodol y maent am gael cyngor y Pwyllgor yn eu cylch.

GOFYNION O RAN GWYBODAETH

14. Darperir y wybodaeth a ganlyn i'r Pwyllgor ym mhob cyfarfod:
 - adroddiad yn crynhoi unrhyw newidiadau sylweddol yng Nghofrestr Risg y Comisiwn;
 - adroddiad cynnydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol yn crynhoi:
 - y gwaith a gwblhawyd (o'i gymharu â'r gwaith y bwriadwyd ei wneud);
 - materion allweddol sy'n codi o waith Archwilio Mewnol;
 - ymateb rheolwyr i'r argymhellion archwilio;
 - newidiadau i'r cynllun archwilio blynyddol;
 - materion yn ymwneud ag adnoddau sy'n effeithio ar y gwaith o gyflawni'r cynllun Archwilio Mewnol;
 - adroddiad cynnydd gan gynrychiolydd Archwilio Cymru yn crynhoi'r gwaith a wnaed a'r casgliadau sy'n deillio ohono;

- adroddiadau sicrwydd rheolwyr; ac
- adroddiadau ar reoli digwyddiadau mawr, "methiannau agos", a'r gwersi a ddysgwyd.

15. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cael y wybodaeth a ganlyn, yn ôl y gofyn:

- cynigion ar gyfer cylch gorchwyl o ran archwilio mewnol / y siarter archwilio mewnol;
- y strategaeth archwilio mewnol;
- Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol;
- adroddiadau sicrwydd ansawdd ar y swyddogaeth archwilio mewnol;
- Strategaeth Archwilio flynyddol Archwilio Cymru;
- adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- cyfrifon drafft y Comisiwn;
- y Datganiad Llywodraethu drafft;
- Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO);
- adroddiad ar unrhyw newidiadau i bolisiau cyfrifyddu;
- Llythyr rheoli Archwilio Cymru;
- adroddiad ar unrhyw gynigion i dendro am swyddogaethau archwilio;
- adroddiad ar y cydweithredu rhwng archwilio mewnol ac archwilio allanol;
- Strategaeth Rheoli Risg y Comisiwn;
- adroddiadau ar dorri rheolau o ran gwybodaeth a diweddariadau ar ddiogelwch seiber;
- manylion y rhaglen newid allweddol / prosiect rheoli portffolio;
- crynodeb o ymadawiadau;
- gwybodaeth arall sy'n berthnasol neu sydd o bosibl o ddiddordeb, gan gynnwys:
 - papurau neu adroddiadau'r Comisiwn ar faterion o bwys strategol'
 - diweddariadau ar feysydd a ystyrir gan Bwyllgor Taliadau'r Comisiwn;
 - adroddiadau cenedlaethol wrth i gyrff archwilio eu cynhyrchu; a

- diweddariadau dwywaith y flwyddyn gan Archwilio Cymru i rannu gwybodaeth am astudiaethau ac adroddiadau'r sector cyhoeddus ehangach ac i roi crynodeb o sut y gallai'r rhain gael effaith ar y Comisiwn neu fod o ddiddordeb iddo.